# Caffael Cymdeithasol Gyfrifol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 – Cwestiynau Cyffredin

## Cynnwys


**Yn dod i rym** ..... 4

C. Pryd mae'r dyletswyddau newydd yn dod i rym? ..... 4

**Cwmpas y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus** ..... 4

C. Pa sefydliadau sy'n rhwym i'r dyletswyddau newydd? ..... 4

C. A yw'r rhestr o gyrff sy'n dod o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn Atodlen 1 yn debygol o newid? ..... 4

C. A fydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn gosod dyletswyddau ar gyflenwyr? ..... 4

C. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn rhan o Ddeddf Caffael 2023? ..... 4

C. Ble gallaf ddod o hyd i ganllawiau? ..... 5

**Prif ddyletswyddau'r ddeddfwriaeth** ..... 5

C. Beth yw caffael cymdeithasol gyfrifol? ..... 5

C. Faint o Amcanion y dylem fod yn eu gosod? ..... 5

C. Beth yw "contract rhagnodedig"? ..... 5

C. A allwn gyhoeddi un ddogfen sy'n cynnwys ein Hamcanion a'n Strategaeth Gaffael gyda'i gilydd? ..... 5

C. Sut y gallwn gyflawni ein Hamcanion wrth ddefnyddio fframweithiau o'r tu allan i Gymru? ..... 5

C. A oes rhaid i ni ddatblygu strategaeth gaffael newydd ar gyfer pob ymarfer caffael a wnawn? ..... 6

C. Pam y mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar gontractau adeiladu? ..... 6

C. Pam mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar gontractau allanoli gwasanaethau? ..... 6

**Adrodd** ..... 6

C. Sut olwg ddylai fod ar ein hadroddiad blynyddol o ran cynnwys, cynllun a hyd? ..... 6

C. Sut y dylem gasglu'r 11 darn o wybodaeth a nodir yn y Rheoliadau gan bob un o'n cyflenwyr sydd o dan gontract? ..... 7

C. A oes angen i ni ddefnyddio'r Gofrestr Gontractau ar GwerthwchiGymru i gydymffurfio ag adran 40 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, sef y ddyletswydd i gyhoeddi Cofrestr Gontractau? ..... 7

C. Pryd y bydd y Gofrestr Gontractau ar GwerthwchiGymru yn tynnu gwybodaeth o'r Hysbysiadau Manylion Contract a gyhoeddir o dan Ddeddf Caffael 2023? ..... 7

**Goruchwylio a gorfodi** ..... 7

C. Beth a allai sbarduno ymchwiliad caffael? ..... 7

C. Beth yw diben is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol? .................... 7

**Y cymalau Gweithiau a chymalau'r Gweithlu (a Chod y Gweithlu)** ........................... 8

C. A yw'r cymalau Gweithiau yn gymwys i gontractau yn ôl y gofyn? .......................... 8

C. A fydd dau God Gweithlu (un a gyhoeddir o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, ac un a gyhoeddir gyda Nodyn Cyngor Polisi)? 8

C. Beth os ydw i wedi dechrau fy mhroses gaffael ond heb gynnwys y cymalau gweithiau neu gymalau'r gweithlu eto? .................................................................. 8

C. Nid yw'n ymddangos bod y cymalau Gweithiau yn cyd-fynd â Nodiadau Polisi Caffael Cymru ynghylch Cyfrifon Banc Prosiectau? ................................................ 9

C. Beth os yw'r cymalau neu'r Cod yn gwrthdaro â pholisïau ein sefydliad? ............... 9

C. Beth sy'n digwydd os na fydd cynigwyr yn cytuno i gynnwys y cymalau? ................ 9

C. Beth y dylwn ei wneud os yw cynigydd yn cytuno i gynnwys y cymalau ond yna'n gwrthod gwneud hynny yn ddiweddarach yn y broses gaffael? ................................. 9

C. A allaf barhau i ddefnyddio'r 'hen' fersiwn o'r Cod Gweithlu Dwy Haen? ................ 9

C. Rwyf wedi cael cwyn nad yw un o fy nghyflenwyr yn cadw at y cymalau/Cod – beth y dylwn ei wneud? ........................................................................................ 9

C. Beth os nad yw'r cytundeb fframwaith rwy'n ei ddefnyddio yn caniatáu ar gyfer cynnwys y cymalau perthnasol? ........................................................................ 9

C. A allaf ddefnyddio'r cymalau ar fathau eraill o gontract, neu gontractau islaw'r trothwy? ........................................................................................................ 10

C. Nid yw fy sefydliad wedi'i gynnwys yn Atodlen 1 – a allaf ddefnyddio'r cymalau hyn? ........................................................................................................ 10

C. A yw'n iawn os byddwn yn defnyddio cymalau ein hunain sydd wedi'u geirio'n wahanol i'r rhai a ddarperir gan Lywodraeth Cymru? ............................................ 10

C. A oes angen i ni gael cyngor cyfreithiol os byddwn yn bwriadu defnyddio cymalau contract newydd neu wahanol? ....................................................................... 10

## Yn dod i rym

### C. Pryd mae'r dyletswyddau newydd yn dod i rym?

A. Mae'r rhan fwyaf o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus eisoes mewn grym, ond bydd y dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol ar gyfer Awdurdodau Contractio i gyd yn dod i rym ar 25 Mawrth 2026 – ac eithrio adrannau 39 a 42 (dyletswyddau i adrodd yn flynyddol) a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2026.

## Cwmpas y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus

### C. Pa sefydliadau sy'n rhwym i'r dyletswyddau newydd?

A. Mae dyletswyddau ar rai cyrff cyhoeddus – gweler Atodlen 1 i'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ar gyfer y rhestr.

### C. A yw'r rhestr o gyrff sy'n dod o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn Atodlen 1 yn debygol o newid?

A. Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau i'r rhestr yn Atodlen 1 drwy Reoliadau. Efallai y bydd newidiadau ond bydd hyn yn dibynnu ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dylid nodi hefyd, os bydd y rhestr o gyrff sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn newid, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu'n awtomatig yn Atodlen 1.

### C. A fydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn gosod dyletswyddau ar gyflenwyr?

A. Ddim yn uniongyrchol, fodd bynnag, byddant yn rhannu cyfrifoldeb dros gyflawni rhai o'r dyletswyddau o dan y Cymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol a'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol. Hefyd, er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Contractio yn rhoi'r manylion angenrheidiol yn eu hadroddiadau blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol, efallai y bydd Awdurdodau Contractio yn dymuno ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddiweddaru eu manylion cofrestru ar GwerthwchiGymru.

### C. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn rhan o Ddeddf Caffael 2023?

A. Nac ydy, mae hon yn ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru, sydd â'r un grym â Deddf Caffael 2023, ond dim ond i'r cyrff a restrir yn Atodlen 1 y mae'n gymwys yn uniongyrchol.

### C. Ble gallaf ddod o hyd i ganllawiau?

A. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau newydd ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | LLYW.CYMRU.

## Prif ddyletswyddau'r ddeddfwriaeth

### C. Beth yw caffael cymdeithasol gyfrifol?

A. Mae caffael cymdeithasol gyfrifol o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn golygu caffael at ddibenion gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru. Fodd bynnag, yn ei hanfod mae caffael cymdeithasol gyfrifol yn gaffael da!

### C. Faint o Amcanion y dylem fod yn eu gosod?

A. Mae gosod amcanion yn gam cyntaf pwysig i Awdurdodau Contractio. Mae angen eu cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant. Awgrymir bod cyrff cyhoeddus yn gosod rhwng pedwar a saith amcan ac yn meddwl am y camau y byddant yn eu cymryd i'w cyflawni.

### C. Beth yw "contract rhagnodedig"?

A. Mae hyn yn cyfeirio at gontractau adeiladu mawr, contractau gwasanaethau allanoli, a'r contractau cyhoeddus hynny uwchlaw'r trothwyon yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Caffael (contractau uwchlaw'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau yn y bôn) ac eithrio contractau "wedi'u heithrio". Er bod Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn gyffredinol, ac amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, yn gymwys i bob ymarfer caffael, dim ond ar gyfer ymarferion caffael mewn perthynas â chontractau rhagnodedig y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus "gymryd pob cam rhesymol" i gyflawni eu hamcanion (ac adrodd ar hyn).

### C. A allwn gyhoeddi un ddogfen sy'n cynnwys ein Hamcanion a'n Strategaeth Gaffael gyda'i gilydd?

A. Gallwch, oni bai eich bod yn cyhoeddi Strategaeth Gaffael ar y cyd – oherwydd mae angen i bob awdurdod contractio gyhoeddi ei Amcanion ei hun.

### C. Sut y gallwn gyflawni ein Hamcanion wrth ddefnyddio fframweithiau o'r tu allan i Gymru?

A. Y brif ffordd o gyflawni eich amcanion yw cynllunio ar eu cyfer o ddechrau eich proses gaffael a'u hymgorffori yn eich Gwahoddiad i Dendro. Os na all y cytundeb fframwaith / y darparwyr ddiwallu eich anghenion, a oes un arall y gallech ei ddefnyddio

a fyddai'n gwneud hynny, neu a ddylid chwilio am lwybr arall i'r farchnad? Os nad oes, yna bydd yn rhaid i chi esbonio hyn yn eich adroddiad blynyddol, a gweithio gyda'ch cyflenwyr i gyflawni cynifer o'ch amcanion â phosibl. Os yw eich contract ym maes adeiladu neu allanoli gwasanaethau ac rydych yn defnyddio fframwaith nad yw'n eich galluogi i gynnwys y cymalau enghreifftiol, bydd angen i chi roi gwybod i Weinidogion Cymru (gweler y canllaw).

### C. A oes rhaid i ni ddatblygu strategaeth gaffael newydd ar gyfer pob ymarfer caffael a wnawn?

A. Nid yw'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i hyn ddigwydd. Dim ond unwaith y mae angen cyhoeddi eich Amcanion a'ch Strategaeth Gaffael sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, a bydd hyn yn cwmpasu eich holl weithgarwch caffael. Bydd angen i chi adolygu eich Strategaeth Gaffael yn flynyddol (adran 38), a'ch Amcanion os ydych yn ystyried bod angen newidiadau, neu os oes unrhyw newidiadau i'r nodau llesiant (gweler Atodlen 2).

### C. Pam y mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar gontractau adeiladu?

A. Rydym yn gwario tua thraean o'n gwariant caffael bob blwyddyn ar adeiladu. Mae cadwyni cyflenwi hir a chymhleth yn golygu ei bod weithiau'n anodd olrhain y modd y caiff canlyniadau llesiant eu cyflawni. Mae llawer o risgiau a chyfleoedd yn gysylltiedig â llesiant yn y sector adeiladu. Hefyd, rydym bob amser wedi canolbwyntio ar adeiladu yng Nghymru drwy ein rhaglen Budd i'r Gymuned, ar gyfer contractau dros £2m. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi sail statudol i'r ffocws hwn.

### C. Pam mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar gontractau allanoli gwasanaethau?

A. Gall allanoli gwasanaethau cyhoeddus danseilio telerau ac amodau gweithwyr dros amser. Mae gwaith teg yn flaenoriaeth o fewn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, ac mae diogelu telerau gweithwyr yn flaenoriaeth. Mae hyn hefyd yn helpu i ddiogelu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

## Adrodd

### C. Sut olwg ddylai fod ar ein hadroddiad blynyddol o ran cynnwys, cynllun a hyd?

A. Eich adroddiad blynyddol yw eich cyfle i esbonio'r modd rydych yn cyflawni canlyniadau llesiant drwy eich gweithgarwch caffael. Bydd angen i chi gynnwys y wybodaeth a ddisgrifir yn adran 39 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, ond gallwch benderfynu ar y ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth. Y gobaith yw y bydd cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi dogfennau apelgar sy'n cynnwys enghreifftiau,

astudiaethau achos ac arferion da i'w rhannu, ac sy'n adlewyrchu cyfleoedd i wella yn y dyfodol. Gweler hefyd y canllaw ar hyn.

### C. Sut y dylem gasglu'r 11 darn o wybodaeth a nodir yn y Rheoliadau gan bob un o'n cyflenwyr sydd o dan gontract?

A. Gallwch ddefnyddio eich systemau eich hun i gasglu'r wybodaeth hon, ond gallwch hefyd ddefnyddio Gwerthwch i Gymru drwy sicrhau bod eich cyflenwyr yn diweddaru eu proffil cyflenwr, lle caiff y wybodaeth hon yn cael ei chasglu drwy gyfres o gwestiynau ie/na.

### C. A oes angen i ni ddefnyddio'r Gofrestr Gontractau ar GwerthwchiGymru i gydymffurfio ag adran 40 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, sef y ddyletswydd i gyhoeddi Cofrestr Gontractau?

A. Nac oes, cyn belled â'ch bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, gallwch wneud hyn fel y dymunwch. Fodd bynnag, efallai y bydd yn haws i chi ddarparu dolen ar eich gwefan i dudalen we Cofrestr Gontractau GwerthwchiGymru, lle bydd gwybodaeth y Gofrestr Gontractau yn cael ei thynnu'n uniongyrchol o'r Hysbysiadau Manylion Contract a gyhoeddir ar FTS drwy GwerthwchiGymru.

### C. Pryd y bydd y Gofrestr Gontractau ar GwerthwchiGymru yn tynnu gwybodaeth o'r Hysbysiadau Manylion Contract a gyhoeddir o dan Ddeddf Caffael 2023?

A. Disgwylir i'r swyddogaeth hon, sydd wedi'i diweddaru, fod ar waith o 26 Mawrth 2026 yn dilyn diweddariad i system GwerthwchiGymru.

## Goruchwylio a gorfodi

### C. Beth a allai sbarduno ymchwiliad caffael?

A. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyn yn adran 41 o'r Ddeddf wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â meysydd o wendid. Gallai hyn olygu methiant dro ar ôl tro i roi prosesau ar waith i weithredu'r gofynion o dan y Ddeddf, neu ymarfer caffael unigol lle mae cyfleoedd sylweddol i gyflawni nodau llesiant drwy fodloni Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, neu i leihau risgiau i lesiant, wedi'u colli. Gweler y canllaw ar ymchwiliadau caffael i gael rhagor o wybodaeth.

### C. Beth yw diben is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol?

A. Rôl yr is-grŵp yw cynghori Gweinidogion Cymru ar weithrediad y ddeddfwriaeth. Mae'n debygol y bydd yr is-grŵp yn ystyried adroddiadau blynyddol cyrff cyhoeddus, a ffynonellau gwybodaeth eraill wrth lunio ei gyngor. Gellir gofyn iddo gynorthwyo i asesu'r hysbysiadau a ddaw i law ynghylch peidio â chynnwys cymalau gweithiau neu gymalau'r gweithlu.

## Y cymalau Gweithiau a chymalau'r Gweithlu (a Chod y Gweithlu)

### C. A yw'r cymalau Gweithiau yn gymwys i gontractau yn ôl y gofyn?

A. Byddai angen i unrhyw Awdurdod Contractio sydd o fewn y cwmpas, sy'n dyfarnu contract yn ôl y gofyn o dan fframwaith lle mae gwerth y contract yn ôl y gofyn dros £2m, gynnwys y cymalau model gweithiau (neu anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru).

Rhaid i unrhyw Awdurdod Contractio o fewn y cwmpas, sy'n dyfarnu cytundeb Fframwaith gwerth dros £2m, gynnwys templedi contractau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys y cymalau gweithiau model ar gyfer pob contract yn ôl y gofyn gwerth dros £2m (neu anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru).

Gall yr Awdurdod Contractio sy'n dyfarnu cytundeb Fframwaith hefyd gael templedi contractau yn ôl y gofyn nad ydynt yn cynnwys y cymalau model, i'w defnyddio gan Awdurdodau Contractio ar gyfer contractau yn ôl y gofyn o dan £2m, os ydynt yn dymuno defnyddio'r templed hwnnw. Ni fyddai angen hysbysiad gan y byddai gwerth y contract yn ôl y gofyn yn is na £2m.

### C. A fydd dau God Gweithlu (un a gyhoeddir o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, ac un a gyhoeddir gyda Nodyn Cyngor Polisi)?

A. Na, dim ond un Cod Gweithlu a fydd yn cael ei gyhoeddi o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Bydd y Cod Gweithlu presennol a gyhoeddwyd fel Nodyn Cyngor Polisi yn cael ei dynnu'n ôl o 25 Mawrth 2026.

### C. Beth os ydw i wedi dechrau fy mhroses gaffael ond heb gynnwys y cymalau gweithiau neu gymalau'r gweithlu eto?

A. Os YDYCH eisoes wedi ymrwymo i gontract cyn i adrannau perthnasol y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ddod i rym ar 25 Mawrth 2026, yna ni fydd yn ofynnol i chi gynnwys y cymalau yn ôl-weithredol nac anfon hysbysiad am beidio â'u cynnwys. Os NAD YDYCH wedi ymrwymo i gontract cyn 25 Mawrth 2026, bydd yn rhaid i chi roi gwybod i Weinidogion Cymru os na fyddwch wedi cynnwys y cymalau mewn contract perthnasol. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o gaffael cyhoeddus yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn cynnwys y cylch caffael cyfan, gan gynnwys rheoli contractau, felly dylech ystyried sut y gallwch geisio cyflawni canlyniadau caffael gymdeithasol gyfrifol drwy reoli contractau lle bo modd, hyd yn oed pan nad yw'r cymalau wedi'u cynnwys.

### C. Nid yw'n ymddangos bod y cymalau Gweithiau yn cyd-fynd â Nodiadau Polisi Caffael Cymru ynghylch Cyfrifon Banc Prosiectau?

A. Bydd Nodiadau Polisi Caffael Cymru yn cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ar ôl 25 Mawrth 2026.

### C. Beth os yw'r cymalau neu'r Cod yn gwrthdaro â pholisïau ein sefydliad?

A. Os na fyddwch yn cynnwys y cymalau gweithiau neu gymalau'r gweithlu mewn contract perthnasol, bydd angen i chi roi gwybod i Weinidogion Cymru. Dylech adolygu polisïau eich sefydliad a'u cysoni â'r Cod a'r cymalau lle bo modd, gan gofio bod gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo Awdurdodau Contractio i gynnwys y cymalau os nad ydynt yn fodlon ar y rhesymau dros beidio â'u cynnwys.

### C. Beth sy'n digwydd os na fydd cynigwyr yn cytuno i gynnwys y cymalau?

A. Os penderfynwch gynnwys y cymalau, ni ddylid eu negodi a dylid eu cyfleu i gynigwyr fel elfen orfodol o gynnig cydymffurfiol, a bydd angen i gynigwyr eu trin fel elfen orfodol a sicrhau eu bod yn cael eu gorfodi drwy gadwyni cyflenwi. Os na chânt eu cynnwys, rhaid anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru.

### C. Beth y dylwn ei wneud os yw cynigydd yn cytuno i gynnwys y cymalau ond yna'n gwrthod gwneud hynny yn ddiweddarach yn y broses gaffael?

A. Ni fydd eu hymateb i'r tendr yn cydymffurfio, neu os ydych yn bwriadu bwrw ymlaen yna bydd angen i chi roi gwybod i Weinidogion Cymru os nad yw'r cymalau'n cael eu cynnwys yn y contract a'u cymhwyso ledled y cadwyni cyflenwi.

### C. A allaf barhau i ddefnyddio'r 'hen' fersiwn o'r Cod Gweithlu Dwy Haen?

A. Dim ond os dyfarnwyd y contract allanoli gwreiddiol cyn 25 Mawrth 2026.

### C. Rwyf wedi cael cwyn nad yw un o fy nghyflenwyr yn cadw at y cymalau/Cod – beth y dylwn ei wneud?

A. Dylid trin hyn fel tor-contract a'i reoli fel y byddech fel arfer yn ei wneud drwy eich trefniadau rheoli contractau. Os na chaiff y materion eu datrys, yna bydd angen rhoi gwybod i Weinidogion Cymru.

### C. Beth os nad yw'r cytundeb fframwaith rwy'n ei ddefnyddio yn caniatáu ar gyfer cynnwys y cymalau perthnasol?

A. Os byddwch yn parhau i ddefnyddio'r fframwaith, yna byddai angen anfon Hysbysiad at Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, argymhellir eich bod yn ymgysylltu â'r cyflenwyr i geisio cyflawni'r canlyniadau. Dylech hefyd ystyried ymarferoldeb ac effaith defnyddio fframwaith gwahanol.

## C. A allaf ddefnyddio'r cymalau ar fathau eraill o gontract, neu gontractau islaw'r trothwy?

A. Gallwch, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn mewn ffordd gymesur. Er enghraifft, pa effaith y gallai hyn ei chael ar gynigwyr llai?

## C. Nid yw fy sefydliad wedi'i gynnwys yn Atodlen 1 – a allaf ddefnyddio'r cymalau hyn?

A. Gallwch – ond fel yr uchod, gwnewch yn siŵr bod eich dull yn gymesur.

## C. A yw'n iawn os byddwn yn defnyddio cymalau ein hunain sydd wedi'u geirio'n wahanol i'r rhai a ddarperir gan Lywodraeth Cymru?

A. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried cynnwys y cymalau sydd "â'r un effaith neu effaith yn sylweddol yr un fath" â'r cymalau enghreifftiol a gyhoeddwyd.

## C. A oes angen i ni gael cyngor cyfreithiol os byddwn yn bwriadu defnyddio cymalau contract newydd neu wahanol?

A. Rhaid i chi gymryd eich cyngor cyfreithiol eich hun er mwyn sicrhau cysondeb drwy gydol eich dogfennau caffael a'ch templedi telerau ac amodau eich hun.